

Dewch gyda ni

Sut i wella'r profiad o deithio ar
fysiau i bobl ddall â cholled golwg



RNIB
Cymru

Yn cefnogi pobl
â cholled golwg

Mewn
partneriaeth â



Ariennir
gan y



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

- 3 Rhagair
- 4 Cyflwyniad
- 5 Pam mae hyn yn bwysig
- 9 Dileu rhwystrau i wasanaethau bws
- 18 Adnoddau defnyddiol
- 18 Cyfeiriadau

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i Danny, Hilary a Nathan sy'n ymddangos yn y ffilm sy'n cyd-fynd â'r canllaw hwn, yn ogystal â'r rheini a gymerodd ran mewn trafodaethau grwpiau trafod i'w lywio. Rydym hefyd yn ddiolchgar i aelodau'r Gymdeithas Cydgysylltwyr Trafnidiaeth am eu sylwadau.

Rhagair

Mae trafndiaeth gyhoeddus yn cynnig gwasanaeth hanfodol i lawer o bobl, y mae rhai ohonynt ymhlith y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, er mwyn sicrhau bod cyflogaeth a gwasanaethau o fewn eu cyrraedd. Yng Nghymru, mae'r rhwydwaith bysiau yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ac mewn rhannau o'r wlad nad oes rheilffordd yn eu cyrraedd. Felly, rydym yn gweithio i sicrhau bod gwasanaeth bws ar gael i bawb sydd ei angen yng Nghymru.



Mae colled golwg yn effeithio ar bobl o bob oed, ond wrth i'n poblogaeth heneiddio, mae'n rhaid i ni dderbyn bod mwy o bobl yn debygol o golli eu golwg. Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a gyflwynwyd yn 1995 wedi helpu i gyflwyno agweddau gwell a gwasanaethau gwell. Mae wedi gwella gallu pobl ddall ac â golwg rhannol i fyw bywydau annibynnol yng Nghymru, ond erys rhai rhwystrau o hyd. Dyna pam rwyf am weld unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau bysiau yn cael eu dileu.

Mae'r canllawiau hyn, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym mhrofiadau bywyd pobl ddall ac â golwg rhannol, yn fodd o helpu gweithredwyr bysiau, trefnwyr teithiau ac awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i wella hygyrchedd gwasanaethau bysiau.

Rwy'n hyderus y bydd y canllawiau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r broses o wella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a bodloni ein hamcanion ehangach i wella cyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol ledled Cymru.



Edwina Hart MBE CStJ AC

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Cyflwyniad

Mae teithio ar fws yn wasanaeth hanfodol i bobl â cholled golwg, gan eu galluogi i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau, gweithio a byw eu bywydau yn annibynnol. Mae'r canllaw hwn yn nodi'r camau gweithredu y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bws yng Nghymru yn diwallu anghenion teithwyr â cholled golwg.

Deg gweithred

1. Gwneud arosfannau bysiau yn hygyrch i bobl â cholled golwg.
2. Rhoi hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd i yrwyr bws.
3. Cyflwyno polisiau stopio clir a gaiff eu cymhwyso a'u monitro.
4. Lle y ceir cyfleuster cyhoeddiadau sain mewn cerbydau, sicrhau y cânt eu defnyddio.
5. Lle na cheir cyfleuster cyhoeddiadau sain mewn cerbydau, sicrhau bod gyrwyr bws yn rhoi gwybodaeth i deithwyr â cholled golwg am y gwasanaeth a'u cyrchfan.
6. Pennu targedau rheoli perfformiad sy'n cymell gyrwyr i helpu teithwyr sydd â cholled golwg.
7. Rhoi gwybodaeth am wasanaethau bws mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.
8. Sicrhau bod systemau adborth cwsmeriaid yn hygyrch i bobl â cholled golwg.
9. Cynnwys pobl sy'n colli eu golwg yn y broses o gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau bws.
10. Ystyried effaith newidiadau arfaethedig ar bobl â cholled golwg wrth gynnal Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

Pam mae hyn yn bwysig

Ffeithiau ac ystadegau am golli golwg

Ar hyn o bryd, mae dros 100,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda cholled golwg [\[1\]](#).

Disgwylir i nifer y bobl â cholled golwg gynyddu'n ddramatig. Rhagwelir y bydd nifer y bobl â cholled golwg yng Nghymru yn dyblu erbyn 2050 [\[1\]](#).

Mae colled golwg yn effeithio ar bobl o bob oed, ond wrth i ni heneiddio rydym yn fwy tebygol o golli ein golwg. Mae un o bob pum unigolyn 75 oed a throsodd, ac un o bob dau unigolyn 90 oed a throsodd yn byw gyda cholled golwg [\[1\]](#).

Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o bobl ym mhob ardal awdurdod lleol yn byw gyda cholled golwg - llawer mwy mae'n debyg na'r hyn a nodir ar gofrestrau awdurdodau lleol o bobl â nam ar eu golwg. Bydd cyfran sylweddol o ddefnyddwyr bysiau presennol a ddefnyddwyr bysiau posibl yn y dyfodol yn colli eu golwg.

Beth yw ystyr colled golwg?

Mae realiti colled golwg yn amrywio i bob unigolyn, ond gall effeithio ar:

- eglurder ein golwg
- ein gallu i weld gwrthrychau i'r naill ochr a'r llall, uwchlaw neu islaw y cyfeiriad rydym yn edrych iddo
- ein gallu i weld lliwiau.

Gall colled golwg effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn: ei iechyd corfforol a meddyliol, ei allu i fyw'n annibynnol, ei allu i ddod o hyd i swydd a'i chadw, ei fywyd teuluol a chymdeithasol

Ni fydd bob amser yn amlwg bod rhywun â cholled golwg, na faint y gall ei weld a faint na all ei weld, oni fydd yn dweud wrthyh. Bydd rhai pobl yn dal i allu darllen print safonol, efallai y bydd eraill yn defnyddio chwyddwydr neu'n gofyn am brint mwy a bydd angen fersiynau sain neu braille o ddeunydd ysgrifenedig ar eraill. Bydd rhai pobl yn defnyddio ci tywys neu ffon hir i'w helpu i osgoi rhwystrau ac i gerdded o amgylch yn ddiogel, ond sydd â cholled golwg yn gwneud hyn. Felly, mae'n bwysig gofyn i bobl pa gymorth sydd ei angen arnynt, yn hytrach na gwneud rhagdybiaeth.

Profiadau pobl ddall ac â golwg rhannol

“Mae’n ddychrynlyd. Dyw pobl ddim yn deall sut beth yw peidio gwybod ble rydych chi. Pe byddai gweddill y byd yn gorfod profi’r un peth, fydden nhw byth yn mynd ar fws!” Mrs W

“Mae’n rhaid i mi orfodi fy hun i fynd allan, os wyf am wneud rhywbeth. Mae’n rhaid i mi fagu hyder, oherwydd mae’n ddychrynlyd... dyw mynd allan ddim yn hawdd.” Hilary

“Dim ond ar gyfer teithiau cyfarwydd y byddwn i’n defnyddio’r bws.”
Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

“Gan fod fy mab yn ifanc, does ganddo ddim ci tywys na ffon, felly dyw hi ddim yn amlwg bod ganddo broblem gyda’i olwg pan fydd yn aros am fws (mae’n well ganddo hyn fel person ifanc yn ei arddedgau). Mae hyn yn golygu bod gyrywyr yn eithaf diamynedd ag ef. Pan holais ynghylch gwasanaethau i bobl anabl, dim ond gwybodaeth am fynediad i bobl mewn cadeiriau olwyn sydd ar gael, sy’n fy ngwylltio. Cefais wybod mai’r dewis arall oedd ffonio 24 awr cyn amser y daith yr oedd fy mab am ei wneud - mae’n fachgen ifanc ac mae am allu defnyddio bws fel pawb arall, pan fydd am wneud hynny! Nid yw’n hoffi fflagio bysiau i lawr, yna sylweddoli nad hwnnw yw ei fws ef pan fydd yn ddigon agos iddo allu darllen ei rif a’i gyrchfan. Mae angen i rywbeth mawr newid. Nid dim ond ‘unigolyn mewn cadair olwyn’ yw ystyr ‘anabl’.”
Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion darganfuwyd bod:

18%

o ymatebwyr sy’n ddall â rhai sydd â golwg rhannol yn disgrifio eu profiad arferol o deithio ar fysiau yn wael [\[2\]](#).

63%

yn dewis aros gartref o leiaf dwy waith y mis yn hytrach na defnyddio bws.

81%

yn teimlo nad ydynt yn gallu mwynhau rhyddid y mae eraill yn gymryd yn ganiataol o ganlyniad o’r anawsterau â gant wrth deithio ar fws.

9%

wedi colli cyfweiliadau am swydd, 14 y cant wedi gwrthod cynigion swyddi a 35 y cant heb gadw apwyntiad â meddyg neu ysbyty am nad oeddent eisiau deithio ar fws.

Gan nad yw pobl â cholled golwg yn gyrru, gall gwasanaethau bws fod yn hollbwysig wrth iddynt deithio o amgylch. Er hyn, mae'n amlwg y gall pobl â cholled golwg ledled Cymru wynebu llawer o broblemau wrth ddefnyddio bysiau. Mae hyn wedi peri i rai roi'r gorau i ddefnyddio bysiau yn gyfan gwbl. Mae eraill yn dweud eu bod yn mynd allan yn llai aml, neu pan fyddant yn mynd allan bod rhaid iddynt baratoi eu hunain am lawer o straen ac anghyfleustra. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y dylai llawer o'r problemau hyn fod yn hawdd i'w datrys.

Bydd cymryd y camau gweithredu a nodir yn y canllaw hwn yn helpu i sicrhau bod pob bws yng Nghymru yn darparu gwasanaeth o safon gyson a all ddiwallu anghenion teithwyr â cholled golwg.

Cyd-destun deddfwriaetho

Mae gan bob darparwr trafndiaeth gyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch. I rywun sy'n colli ei olwg, mae sicrhau bod gwasanaeth yn hygyrch yn golygu mwy na dim ond ystyried mynediad corfforol i gerbydau. Mae hefyd yn cynnwys amrywiaeth ehangach o ffactorau, fel sut y bydd yn cael gwybodaeth am wasanaethau bws, neu'r cymorth y gall fod ei angen arno yn ystod ei daith.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau "rhesymol" gael eu gwneud i bolisiau ac arfer(ion) sy'n golygu bod pobl ddall ac â golwg rhannol dan anfantais fawr ac ychwanegu cymhorthion cynorthwyol at ddarpariaethau presennol. Gellid disgrifio llawer o'r polisiau a'r arferion a argymhellir yn y canllaw hwn fel gwasanaethau cynorthwyol i sicrhau bod teithiau bws yn hygyrch, a gellid eu hystyried hefyd yn gamau rhesymol i'r cwmni bysiau orfod eu cymryd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae Rheoliadau'r UE ar Hawliau Teithwyr ar fysiau a choetsys lle mae'n rhaid sicrhau mynediad anwahaniaethol i drafndiaeth wedi bod yn weithredol ers mis Mawrth 2013. Ymysg y gofynion eraill nad ydynt wedi'u gweithredu eto mae'r canlynol:

- hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd gorfodol i staff bysiau a coestys
- darparu gwybodaeth drwy gydol y daith.



Yn ystod 2014, cynhaliodd Gweinidog Trafnidiaeth y DU adolygiad o hyfforddiant gyrwyr bws, yn cynnwys y defnydd o randdirymiad a gymhwyswyd o dan Reoliad 181/2011 yr UE (mewn perthynas â hawliau teithwyr bws/coets) sy'n eithrio gyrwyr bws a choets rhag cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd gorfodol. Adeg cyhoeddi ni chafwyd unrhyw ganlyniad o'r adolygiad hwn.

Gall dilyn y canllawiau yn y ddogfen hon helpu cwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a sicrhau eu bod yn barod ar gyfer rheoliadau newydd yr UE.



Dileu rhwystrau i wasanaethau bysiau

Bydd comisiynwyr gwasanaethau bws am wybod pa wasanaethau sy'n hygyrch i bobl â cholled golwg. Mae gwasanaethau bws sy'n fwy hygyrch yn gwneud synnwyr busnes da ac yn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae'r adrannau isod yn cwmpasu rhai o'r prif feysydd y dylai comisiynwyr, cyfleusterau sbardun teithiau a chwmnïau bysiau eu hystyried. Er mwyn cynorthwyo cwmnïau bysiau, mae'r RNIB wedi datblygu siarter bysiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i lofnodwyr gytuno ar nifer o ymrwymadau sy'n ymwneud â hygyrchedd (gweler [Adnoddau defnyddiol](#)). Gellir mabwysiadu hyn fel cam cyntaf.

Gall awdurdodau lleol hefyd ystyried y camau y byddent yn eu cymryd eu hunain er mwyn gwella'r profiad o deithio ar fysiau i bobl â cholled golwg, er enghraifft addasu cyfarpar ar ymyl y ffordd a chynnwys defnyddwyr bysiau sy'n ddall ac â golwg rhannol pan fydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio.

Hyfforddiant i yrwyr

“Does gen i ddim ci tywys, a dydw i ddim yn defnyddio ffon, felly byddai llawer o bobl yn edrych arnaf heb sylweddoli bod gen i anabledd, neu broblem gyda fy ngolwg. Dwi'n deall hynny i raddau, ond pan fydda i'n gofyn am help gan rywun, dwi'n gofyn am reswm, a phe na bai angen help arna i, fyddwn i ddim yn gofyn. A dwi'n meddwl, os bydda i'n gofyn i'r gyrrwr bws 'pa fws yw hwn?' neu 'allwch chi ddweud wrtha i pryd bydd angen i mi ddod oddi ar y bws ar gyfer y safle hwn?', dylai ddweud 'ie, mae hynny'n iawn', oherwydd mae'n rhan o'i swydd, a dydw i ddim yn meddwl bod ganddo hawl i ofyn 'pam mae angen i ti ofyn hynny?'... Dydi hyn ddim yn disgrifio pob gyrrwr... ond pan fydd rhywbeth yn digwydd, mae'n gwneud i chi deimlo'n wael; mae'n ergyd i'ch hyder, oherwydd mae'n ddiangen.” Danny

Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i yrwyr bws gael unrhyw hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer pobl â cholled golwg. Fodd bynnag, gwyddom y bydd gyrrwyr yn dod ar draws teithwyr â cholled golwg yn rheolaidd a bydd y ffordd y byddant yn rhyngweithio â hwy yn cael effaith hanfodol ar b'un a all y teithiwr ddefnyddio'r gwasanaeth ai peidio.

Gall cael hyfforddiant rhyngweithiol i wella ymwybyddiaeth o bobl â cholled golwg a chynnwys pobl ddall ac â golwg rhannol wrth gynllunio deunyddiau a gweithgareddau hyfforddiant gael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth ac ymddygiad gyrrwyr. Mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod gyrrwyr yn ymwybodol o'r polisiau perthnasol mewn perthynas â phobl â cholled golwg (er enghraifft arferion stopio bysiau a darparu gwybodaeth hygyrch).

Mae'r RNIB wedi datblygu gweithgaredd o'r enw "Swap with me" (gweler yr [Adnoddau defnyddiol](#)), sy'n ffordd o ddwyn gyrwyr bysiau, hyfforddwyr a rheolwyr ynghyd gyda theithwyr â cholled golwg am ychydig oriau o gyfnewid a rhannu profiadau. Mae gyrwyr bws yn gwisgo "sbechol efelychu", sy'n efelychu gwahanol fathau o gyflyrau llygad, ac yna'n ceisio stopio bws a mynd arno, gan ryngweithio gyda'r gyrrwr a dod o hyd i sedd. Drwy gydol y gweithgaredd hwn, caiff y gyrwyr eu paru â theithiwr sy'n colli ei olwg i'w holi am ei brofiadau. Ceir manylion llawn am sut i gynnal digwyddiad "Swap with me" gan yr RNIB. Gall y ffilm sy'n cyd-fynd â'r canllaw hwn hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyfforddiant.

"Drwy gymryd rhan yn y digwyddiad 'Swap with me', cawsom ddealltwriaeth well o'r rhwystrau sy'n wynebu ein cwsmeriaid dall ac â golwg rhannol pan fyddant yn dal bws. Hefyd, cafodd y cwsmeriaid gyfle i eistedd y tu ôl i'r olwyn i glywed y lefelau sŵn a chael profiad o deithio ar fws o safbwynt y gyrrwr. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnawn gyda'r RNIB, ac mae'n amlwg o'r digwyddiad hwn pa wahaniaeth y mae deialog agored cadarnhaol a chyd-ddealltwriaeth yn ei wneud. Rhannwyd gwersi gwych ac rwy'n hyderus y bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth i bawb." Simon Mohommad, Bws Caerdydd

"Roedd y digwyddiad 'Swap with me' yn gyfle gwych i gwrdd â phobl ar y rheng flaen a chael eu barn ar ba mor anodd ydyw i yrru cerbyd mawr, delio â chwsmeriaid ac arian a cheisio bod yn brydlon. Rhoddodd ddealltwriaeth i mi o brofiad gyrwyr bws. A gwnaethant hwy ddysgu am gyflyrau llygaid gwahanol a sut maent yn effeithio ar ein bywydau bob dydd, a gofyn llawer o gwestiynau." Nicola

Polisiau ac arferion stopio

"Mae'n siŵr bod tua thri neu bedwar bws yn stopio ar y safle bws hwnnw, felly alla i ddim dweud pa fws sy'n cyrraedd bob amser. Ond os oes rhywun arall ar y safle bws galla i ofyn neu yn aml iawn byddan nhw'n dweud 'i ble rydych chi'n mynd?' ac yn dweud wrtha i." Hilary

"Cefais brofiad annymunol iawn pan na wnaeth bws stopio i mi ger safle bws. Yn hytrach, stopiodd y gyrrwr 100 llath i fyny'r ffordd. Pan es i ar y bws, roedd y gyrrwr yn ddi-serch iawn gyda mi. Dywedodd nad oedd yn gwybod fy mod yn aros am y bws gan na wnes i roi arwydd iddo stopio. Roeddwn wedi cynhyrfu cymaint oherwydd ei agwedd, wnes i ddim dweud wrtho na allwn i weld y bws yn agosáu oherwydd fy nghyflwr llygaid." Carol



**Ni all
naw o bob deg
o bobl sydd â cholled golwg
weld bws yn agosáu mewn
amser i'w fflagio [3].**

**Collodd
saith o bob deg
o bobl eu bws am nad oedd
wedi stopio yn union wrth
y safle bws swyddogol [3].**

Mae llawer o bolisiau cwmnïau bysiau presennol yn gweithredu yn mynd yn groes i fuddiannau pobl â cholled golwg. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw'r datganiadau a geir yn eu Hamodau Cludo, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y cwsmer i fflagio'r bws pan fydd yn aros ger safle bws. I bob diben, mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar delerau na ellir ond eu cyflawni gan bobl sy'n gallu gweld bws yn agosáu a darllen rhif ei lwybr.

Canfu arolwg yn 2012 gan yr RNIB na all naw o bob deg o bobl â cholled golwg weld bws mewn pryd i'w fflagio [3]. Mae llawer yn gorfod dibynnu ar garedigrwydd teithwyr eraill; mae eraill yn adrodd straeon am fflagio faniau a loriau yr oeddent wedi'u clywed yn agosáu am eu bod yn meddwl mai eu bws nhw ydoedd. Yn arolwg yr RNIB yn 2012 nododd wyth allan o ddeg o bobl eu bod wedi colli'r bws yr oeddent am ei gael. Er mwyn sicrhau bod eu gwasanaeth yn hygyrch i bobl â cholled golwg, dylai polisiau cwmnïau bysiau nodi y byddant yn stopio ar gyfer unrhyw deithiwr sy'n aros ger safle bws, p'un a fyddant yn rhoi arwydd i'r bws stopio ai peidio.

Ceir agweddau eraill ar arferion stopio a all atal pobl â cholled golwg rhag defnyddio bysiau. Pan fydd un bws eisoes wedi stopio ger safle bws, mae'n arfer cyffredin i ail fws stopio y tu ôl iddo a derbyn teithwyr. Nododd ymatebwyr i arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion yn 2013 mai dim ond un o bob pedwar gyrrwr sy'n stopio yn union ar ymyl y palmant [2]. Ar gyfer teithwyr na allant weld bod ail fws wedi cyrraedd, bydd hyn fel arfer yn golygu y byddant yn colli eu bws - dywedodd bron i hanner yr holl ymatebwyr i arolwg bws yr RNIB yn 2014 eu bod wedi colli bws am na dderbyniodd deithwyr ger y safle bws swyddogol [4].

“Pan fydd bysiau'n stopio, dydyn nhw ddim bob amser yn ddigon agos at ymyl y palmant neu dydyn nhw ddim yn gostwng y lefel er mwyn i mi allu mynd ar y bws ac oddi arno yn hawdd. Yn aml, dyw bysiau ddim yn stopio ger y safle penodol felly dyw ymyl y palmant ddim wedi'i godi, felly rwy'n cael trafferth mynd ar y bws ac oddi arno. Mae'n anodd iawn pan fydd llawer o fysiau yn stopio ger yr un safle neu'n agos at ei gilydd. Pan fydd ceir yn parcio ar ymyl y ffordd, mae'n anodd iawn i mi weithiau weld y bws yn dod nes ei bod hi'n rhy hwyr.”

Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

“Pan na fydd y bws yn stopio ger y safle bws, rwy'n cael trafferth mynd oddi ar y bws weithiau oherwydd y bwlch rhwng y bws ac ymyl y palmant, a gall fy nghiti tywys ddim fy helpu i gyda hynny.” Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

Dylai polisiâu cwmniâu bysiau fod yn glir y dylai gyrwyr stopio eu bysiau yn ddiogel ger safleoedd bysiau cyn agor y drysau i adael i deithwyr ddod ar y bws neu i adael y bws, a monitro perfformiad yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd yn ymarferol.

Cyhoeddiadau sain

“Dydw i ddim yn deall y gwrthwynebiad i gael cyhoeddiadau sain ar fysiau. Mae mor ddefnyddiol ar drên... Does dim rhaid i mi ofyn i neb pryd y bydd angen i mi godi. Mae’n beth mor syml, ac nid yw mor ddrud â hynny i’w osod ar fws newydd. Does dim rhaid i chi boeni a fydd teithiwr yn cofio, does dim angen i chi boeni a fydd gyrrwr bws yn cofio. Pan fyddwch yn mynd oddi ar y bws, byddwch yn gwybod pa safle rydych wedi’i gyrraedd.” Nathan

“Mae gennym ni gyhoeddiadau sain ar un o’n bysiau lleol nawr, ac mae’n dda iawn. Rwy’n gwybod beth yw’r daith nawr! Rydych chi’n sylweddoli pa mor bwysig yw hyn pan fyddwch yn mynd ar fws nad yw’n cynnwys cyhoeddiadau sain, ac rydych yn gweld eu heisiau’n fawr.” Peter

“Dyw cyhoeddiadau sain ddim yn gweithio bob amser - maent yn mynd yn sownd neu’n cyhoeddi’r safle anghywir. Weithiau maent yn stopio hanner ffordd drwy’r daith. Dywedodd gyrrwr y bws nad oedd yn gwybod sut i’w osod yn iawn.” Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

“Weithiau bydd rhai gyrwyr bws yn dweud wrth stopio ger safle bws ‘dyma wasanaeth rhif fel a fel (e.e. 20), yn mynd i ... (gan nodi pen y daith)’. Ond dim ond ambell i yrrwr sy’n gwneud hyn. Byddai’n fwy defnyddiol pe byddai pob gyrrwr yn cael ei annog i wneud hyn pan fydd rhywun yn cario ffon wen.” Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion darganfuwyd bod:

89% Y nifer o bobl ddall ag â golwg rhannol sydd wedi colli eu safle bws am nad oeddent yn ymwybodol o’u lleoliad ar eu taith [\[5\]](#).

Mae cyhoeddiadau sain awtomataidd (“bysiau siarad”) yn helpu pobl i wybod pryd i fynd oddi ar y bws, heb orfod dibynnu ar y gyrrwr neu deithwyr eraill i’w helpu. Cyfran fechan iawn o gost bws newydd yw cynnwys y cyfleuster i wneud cyhoeddiadau sain, ond mae’n gam allweddol i sicrhau bod y gwasanaeth yn hollol hygyrch i bobl â cholled golwg. Dylid disgwyl i gwmniâu bysiau ymrwmo i gynnwys cyhoeddiadau sain ar bob bws newydd. Dylid rhoi gwybodaeth am ba lwybrau sy’n cynnwys cyhoeddiadau sain i bobl â cholled golwg hefyd fel y gallant wneud dewisiadau hyddysg am y llwybrau y byddant yn eu defnyddio.

Cafwyd enghreifftiau lle mae gyrwyr ar “fysiau siarad” wedi troi'r sain i lawr neu ei ddiffodd, weithiau oherwydd cwynion gan deithwyr eraill eu bod yn rhy ymwithiol. Er mwyn atal hyn rhag digwydd, mae angen i gyhoeddiadau fod yn gryno ac yn ystyrlon i deithwyr. Mae hefyd angen i gwmnïau bysiau sicrhau bod gyrwyr yn ymwybodol o'r effaith y gall diffodd cyhoeddiadau sain ei chael ar eu teithwyr ac egluro pam mae'r system yn bwysig.

Cymorth

“Gallwch geisio gofyn i'r gyrrwr, ac os bydd e'n cytuno i helpu, nad yw'n digwydd bob tro, fydd e ddim o reidrwydd yn cofio bob amser. Rwyf wedi bod mewn sefyllfaoedd anodd iawn, lle mae'r gyrrwr wedi anghofio, ac mae'n cofio ychydig yn ddiweddarach pan fydd yn rhy hwyr ac yn dweud ‘Dyna ti, rwyf ti wedi cyrraedd dy safle’. Felly rydych chi'n mynd oddi ar y bws a dydych chi ddim lle roeddech chi am fod. Y sefyllfa waethaf i mi fod ynddi oedd pan ddywedodd e ddim nad hwnnw oedd fy safle, ddywedodd e ddim ‘Dwi wedi anghofio dweud wrthyf ti, rwyf ti wedi cyrraedd dau safle ymhellach ymlaen’, felly roeddwn i'n ceisio dod o hyd i bethau cyfarwydd ar y ffordd, gan dybio fy mod i mewn un lle, ond mewn gwirionedd roeddwn i hanner milltir i lawr y ffordd, a doeddwn i ddim yn gallu deall pam roedd y ci tywys yn dal i fynd, yn hytrach nag aros wrth ymyl palmant fel yr oeddwn i'n ei ddisgwyl, ac roeddwn i'n meddwl ble ydw i?” Nathan

“Dwi newydd symud i'r ardal, ac wedi cael problemau gyda'r gyrrwr bws yn gwrthod dweud wrtha i pryd i fynd oddi ar y bws felly collais fy stop. Mae wedi peri pryder a straen mawr i mi oherwydd byddai'r gyrrwr bws yn dweud wrtha i ble roedden ni neu enw'r safle, ond doeddwn i ddim yn gyfarwydd â nhw. Dim ond rhai llwybrau y mae fy nghi tywys yn gyfarwydd â nhw felly roedden ni ar goll yn llwyr mewn llefydd anghyfarwydd.” Nicola

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion darganfuwyd bod:

54% Y nifer o bobl ddall ag â golwg rhannol sydd wedi colli eu safle am fod gyrwyr wedi gwrthod cytuno i ddweud wrthynt pan fyddent wedi cyrraedd pen eu taith [\[2\]](#).

Ar fysiau heb gyhoeddiadau sain, mae pobl â cholled golwg yn dal i ddibynnu ar y gyrrwr i ddweud wrthynt pan fyddant wedi cyrraedd eu cyrchfan. Mae angen i gwmnïau bysiau egluro i'w gyrwyr pa mor bwysig yw darparu gwybodaeth a chymorth i deithwyr ar gais (fel rhifau llwybrau a chyrchfannau'r bysiau a phryd i fynd oddi ar y bws). Dylid ategu hyn drwy roi hyfforddiant i yrwyr.

Targedau gyrwyr a rheoli perfformiad

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bysiau yn cymell gyrwyr i gyrraedd targedau llym o ran prydlondeb, ond nid ydynt yn gwobrwyo gyrwyr sy'n rhoi cymorth i deithwyr anabl. Ni ddylai amser a dreulir yn galluogi teithwyr i ddefnyddio eu gwasanaeth gael ei gyfrif yn erbyn gyrwyr. Felly, dylai cwmnïau sicrhau bod targedau prydlondeb yn ystyried amser y gall fod ei angen i gynorthwyo teithwyr â cholled golwg.

Dylid defnyddio prosesau i oruchwylio gyrwyr a rheoli eu perfformiad hefyd er mwyn sicrhau bod y polisïau a'r hyfforddiant a nodir yn yr adrannau uchod yn cael eu gweithredu. Gall yr adran "beth rydym ni'n ei ddisgwyl gan ein gyrwyr bws" yn Siarter Bysiau'r RNIB (gweler yr [Adnoddau defnyddiol](#)) fod o gymorth yn hyn o beth.

Gwybodaeth hygyrch

"Mae'r ffaith bod amserlenni print bras yn cael eu disodli gan hysbysebion wedi achosi problemau i mi. Cwynais am hyn... ond chefais i ddim canlyniad boddhaol."
Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion darganfuwyd bod:

81% Y nifer o bobl ddall ag â golwg rhannol sydd yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl darllen gwybodaeth ar amserlen bysiau ger safleoedd bysiau [\[6\]](#).

Ni all llawer o bobl â cholled golwg ddarllen print safonol. Felly, mae'n bwysig bod gwybodaeth a gynhyrchir gan gwmnïau bysiau, awdurdodau lleol a Traveline, fel amserlen bysiau, ar gael mewn sawl fformat yn cynnwys sain, print bras a braille. P'un a ydynt yn cynllunio taith, yn sefyll ger safle bws neu'n mynd ar fws, bydd angen i wybodaeth fod ar gael i bobl ddall ac â golwg rhannol. Dylai awdurdodau cyhoeddus gynnwys darparu gwybodaeth hygyrch a chywir fel gofyniad mewn tendrau ar gyfer gwasanaethau ar contract. Dylai hyn gynnwys arwyddion clir a hygyrch.

Mae nifer gynyddol o bobl â cholled golwg yn defnyddio'r rhyngwrdd a thechnoleg ffonau deallus i gael gwybodaeth, ond ni all llawer o bobl wneud hynny a bydd angen iddynt allu cael gafael ar wybodaeth mewn fformatau amgen. Dim ond 12 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg bysiau yr RNIB yn 2014 a ddywedodd eu bod yn defnyddio aps neu ffonau deallus i'w helpu i ddod o hyd i fysiau neu i wybod pryd i fynd oddi ar fws [\[4\]](#).

Byddai'r defnydd o aps yn cael ei ategu gan WiFi ar fysiau, ond dywedodd y bobl ddall a'r rhai â golwg rhannol yr ymgynghorwyd â hwy wrth lunio'r canllawiau hyn y byddai'n well ganddynt weld y broses o gyflwyno cyhoeddiadau sain yn cael blaenoriaeth dros ddarparu WiFi ar fysiau neu ddatblygu aps newydd.

“Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n defnyddio bysiau yn hŷn a dydyn nhw ddim yn defnyddio technoleg cymaint â phobl ifanc. Mae'n annheg os ydyn nhw'n meddwl y dylen ni brynu ffonau deallus dim ond er mwyn gallu gweithio allan lle rydyn ni ar y bws. Does dim rhaid i bobl sy'n gallu gweld wneud hynny, felly pam ddylen ni?” Mrs N

Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n defnyddio apps yn dweud eu bod yn ddefnyddiol, ac mae eraill yn dweud y byddent yn hoffi defnyddio ap ond nad oes ganddynt ffôn deallus neu nad ydynt yn gwybod pa aps sydd ar gael [\[4\]](#).

“Mae technoleg ffonau deallus wedi gwneud gwahaniaeth mawr i mi. Mae'n ddefnyddiol iawn yn fy marn i. Mae gen i ap ar gyfer Traveline Cymru, a gallwch nodi'r daith rydych am ei gwneud a bydd yn dweud wrthy ch pa rifau bysiau sydd eu hangen arnoch a pha safleoedd bysiau y dylech eu defnyddio. Yna bydd angen i mi gyrraedd y safleoedd bysiau hynny ac ati, a gallaf ddefnyddio ap arall ar gyfer hyn, sy'n defnyddio llais.” Nathan

Bydd cynllun a fformat gwefannau ac aps yn pennu p'un a all rhywun sy'n colli ei olwg eu defnyddio ai peidio. Er enghraifft, bydd angen i wefannau fod yn gydnaws â “darllenwyr sgrin” a ddefnyddir gan rywun sy'n ddall a meddalwedd “chwyddo sgrin” y gallai rhywun â golwg rhannol ei ddefnyddio. Er mwyn cyflawni hyn, dylai gwefannau gael achrediad WCAG 2.0.

Gall tîm mynediad digidol yr RNIB roi rhagor o arweiniad ar we-hygyrchedd, archwilio hygyrchedd aps a rhoi achrediad. Gellir cysylltu â hwy fel a ganlyn:

E-bost: digitalaccess@rnib.org.uk

Gwefan: rnib-business.org.uk

Llinell Gymorth RNIB: 0303 123 9999



Gweithdrefnau cwyno

“Mae’n gymharol hawdd gwneud cwyn unwaith y byddwch yn gwybod pwy i ofyn amdano... ond cefais help gan yr RNIB i wneud hynny, felly mae’n hawdd nawr. Mae gen i enw cyswilt y gallaf gysylltu ag ef, ac mae’n ymateb, ac mae’n ymchwilio i bethau, ond nid oes gan bawb yr un wybodaeth na’r gallu i anfon e-bost at unigolyn penodol yn uniongyrchol.” Nicola

“Dwi wedi ffonio i gwyno sawl gwaith, ond alla i byth fynd drwodd, a phan rydw i wedi cwyno, does dim yn cael ei wneud am y peth.” Mr D

“Pan fyddwch yn cysylltu â gwasanaethau cwsmeriaid, maent yn dweud y byddant yn dod yn ôl atoch, ond dydyn nhw ddim yn gwneud hynny ac allwch chi ddim cael ateb.” Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru, 2014

Nid yw pobl â cholled golwg bob amser yn ei chael hi’n hawdd cwyno am wasanaethau bws. Er enghraifft, gall cael rhifau adnabod neu gofrestru bysiau fod yn amhosibl os mai dim ond gwybodaeth weledol sydd ar gael. Yn yr un modd, ni chaiff ffurflenni cwyno eu darparu bob tro mewn fformatau hygyrch fel print bras, sain a braille (gweler yr adran [Gwybodaeth hygyrch](#)). Dylai cwmnïau bysiau brofi eu systemau adborth cwsmeriaid gyda phobl â cholled golwg er mwyn sicrhau bod y rhain yn hygyrch a bod gwybodaeth am sut i gwyno ar gael i bobl yn hawdd.

Cefnogir Defnyddwyr Bysiau Cymru yn ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynrychioli buddiannau pob teithiwr bws, yn cynnwys y rhai â cholled golwg. Gall gefnogi teithwyr dall ac â golwg rhannol er mwyn datrys cwynion, a gall hefyd weithio gydag awdurdodau trafndiaeth leol a chwmnïau bysiau er mwyn trefnu digwyddiadau i gwrdd â defnyddwyr bws lleol. Gellir cysylltu â Defnyddwyr Bysiau Cymru ar:

Ffôn: **029 2022 1370**

E-bost: wales@bususers.org

Ymgysylltu â phobl ddall ac â golwg rhannol

Y ffordd orau o ganfod a yw gwasanaethau bws yn hygyrch i bobl â cholled golwg yw gofyn iddynt. Bydd cynnwys pobl â cholled golwg mewn trafodaeth am newidiadau i bolisïau, arferion a gwasanaethau a ddarperir a newidiadau ffisegol (fel newidiadau i safleoedd bysiau a gorsafoedd bysiau), yn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Fel rhan o gynnal asesiad o effaith unrhyw gynig ar gydraddoldeb, dylai awdurdodau cyhoeddus geisio safbwyntiau pobl â cholled golwg. Fodd bynnag, dylid cael deialog parhaus hefyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bws yn diwallu eu hanghenion.

Dylai cwmnïau bysiau hefyd gynnwys pobl â cholled golwg mewn modd ystyrlon ym mhob newid a wneir i gynlluniau, polisïau, arferion, gwasanaethau a ddarperir, adolygiadau a gwerthusiadau. Bydd cael fforwm ar gyfer ymgynghori ar newidiadau posibl i wasanaethau a chael adborth rheolaidd yn sicrhau y deallir anghenion pobl yn briodol.

Ledled Cymru, ceir sawl grŵp lleol o bobl ddall ac â golwg rhannol a allai greu fforwm parod i gwmnïau bysiau ymgysylltu â hwy. Cyngor Cymru i'r Deillion yw'r corff ambarél ar gyfer grwpiau o'r fath a gall helpu i hwyluso cyswllt gyda hwy. Gellir cysylltu â Chyngor Cymru i'r Deillion fel a ganlyn:

Ffôn: **029 2047 3954**

E-bost: staff@wcb-ccd.org.uk

Safleoedd bysiau

“Rwyf wedi sefyll ar ymyl y palmant ac ar y ffordd yn y glaw er mwyn sicrhau fy mod yn weladwy i yrwyr, oherwydd yr holl geir oedd wedi parcio yno.” Mr T

Mae lleoliad safleoedd neu lochesi bysiau, a'r amgylchedd a'u hamgylch yn hollbwysig i bobl â cholled golwg. Un broblem aml i bobl â cholled golwg yw'r celfi stryd sy'n aml wedi'u gosod ger safleoedd bysiau ac a all greu perygl ychwanegol wrth fynd ar y bws ac oddi ar y bws: canfu arolygon gan yr RNIB yn 2012 a 2014 fod hanner yr ymatebwyr yn dweud eu bod wedi taro yn erbyn gwrthrychau ar y palmant a oedd yn rhwystro'r allanfeydd [\[3\]](#) [\[4\]](#).

Mae sawl ffactor y mae angen eu hystyried

- **Agosrwydd y safle neu loches bws** at groesfannau diogel (yn cynnwys croesfannau a reolir), a'r pellter oddi wrth gyffyrdd.
- **Cyflwr y palmant**, yn cynnwys lled y palmant, ymyl y palmant wedi'i ostwng ac arwynebau rhybuddio cyffyrddadwy priodol. Dylid hefyd ystyried a oes lleiniau glas yno a all fod yn wlyb a llithrig
- **Y tebygolrwydd y bydd gywyr ceir yn cael eu denu i barcio'n amhriodol** a rhwystro mynediad i fysiau, a'r defnydd o fesurau i atal parcio a monitro gan swyddogion gorfodi parcio.
- **Cynllun y safle bws ei hun**, yn cynnwys defnyddio lliwiau cyferbyniol priodol ar safleoedd bysiau, er mwyn sicrhau bod strwythurau gwydr a metal mor weladwy â phosibl yn eu hamgylchedd. Dylai arwyddion ar y gwydr gyd-fynd â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth.
- **Ni ddylai'r defnydd o blanwyr a seddi** rwystro mynediad i'r safle neu loches bws, na lleihau gwelededd.
- **Dylai amserlenni a rhifau bysiau** fod mewn ffont mawr a chlir ac mewn lliw sy'n cyferbynnu'n briodol â'r cefndir. Dylai uchder, maint a lleoliad gydymffurfio â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth

Adnoddau defnyddiol

Mae'r adroddiad Public Transport for People with Sensory Loss a gyhoeddwyd gan Defnyddwyr Bysiau'r DU yng Nghymru yn 2013 yn rhoi canllawiau arfer gorau i gwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol ar y broses o ddarparu gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru ar gyfer pobl â cholled golwg a'u clyw. Ar gael ar-lein yn: bit.ly/1u0ilsv

Mae adroddiad Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau Llywodraeth Cymru (2014) ar eu hadolygiad o bolisi bysiau yn cynnwys argymhellion ynghylch sut i sicrhau bod trafniadaeth bysiau yn fwy hygyrch. Ar gael ar-lein yn: bit.ly/1u0iT7g

Caiff Siarter Bysiau yr RNIB a chanllaw ar gynnal digwyddiad Swap with Me eu cynnwys yn "We're on Board: making bus travel better for blind and partially sighted people". Mae'r adroddiad a'r ffilm ategol ar gael ar-lein yn: rnib.org.uk/bus

Mae Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion hefyd yn llunio taflen "Tips for Bus Drivers", sydd ar gael ar-lein yn: bit.ly/1wNIYWp

Cyfeiriadau

1. Access Economics (2009), Future Sight Loss UK 1: The economic impact of partial sight and blindness in the UK adult population (RNIB, 2009).
2. Adroddiad Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion (2013), Road to Nowhere report. Ar gael ar-lein yn: bit.ly/1pb4TGv
3. Adroddiad yr RNIB (2012) Stop for Me, Speak to Me. Ar gael ar-lein yn: rnib.in/stopformespeaktomereport
4. Arolwg Bysiau'r RNIB 2014: Summary of responses. Ar gael ar-lein yn: rnib.in/bussurvey2014
5. Adroddiad Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion (2012), Forgotten Passengers. Ar gael ar-lein yn: bit.ly/1sQIZTt
6. Arolwg stryd yr RNIB (2014) o 500 o bobl ddall a rhai â golwg rhannol (heb ei gyhoeddi).



RNIB Cymru
Cwrt Jones
Stryd Womanby
Caerdydd CF10 1BR

Ffôn: **029 2082 8500**

E-bost: cymru@rnib.org.uk
rnib.org.uk/cymru

© RNIB 2014

Rhif elusen gofrestedig RNIB Cymru 1156629 (Cymru a Lloegr),
SC044876 (yr Alban) a 1109 (Ynys Manaw)